Rhif: WG34724

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

## Cyfnod Gweithredu 3 - Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mai 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Awst 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar reoliadau newydd sy'n nodi pa fath o wasanaethau eirioli fydd yn cael eu rheoleiddio o dan Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac a fydd yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny. Byddant yn dod i rym yn Ebrill 2019. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i ymgynghoriad sydd ar ddiwedd y ddogfen hon erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb at:<br><br>Cangen Gweithredu Deddfwriaeth<br>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Neu mae'r ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau) a gellir ei dychwelyd atom erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost i: RISCAct2016@gov.wales |
| **Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael.**<br><br>Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017 - mae'r rhain yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a chymorth cartref<br>http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf<br><br>Canllawiau Statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ynghylch bodloni rheoliadau safonau gwasanaethau (Chwefror 2018) - mae'r rhain yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a chymorth cartref:<br>https://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidancecy.pdf<br><br>Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd Angen Cymorth:<br>https://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?skip=1&lang=cy<br><br>Cod Ymarfer ynghylch ymarfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag Eiriolaeth o dan Ran 10 a rhannau |

perthnasol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part10cy.pdf

Lleisiau Coll: Adolygiad o'r gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru
https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Lleisiau-Coll_W.pdf

Adroddiad Crynodol ar yr Ymgynghoriad
Cyfnod 1 Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-01/161122responsescy.pdf

Adroddiad Crynodol ar yr Ymgynghoriad
Cyfnod 2 Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/171122responses-servicecy.pdf

**Manylion cysylltu**

I gael mwy o wybodaeth:

Cyfeiriad: Cangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: RISCAct2016@gov.wales

Ffôn: 0300 0604400

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Gall comisiynu lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gwaith hwn gael ei wneud gan drydydd parti

achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol**,** mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd

## Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- (o dan rai amgylchiadau) cludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD, CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane, Wilmslow
Cheshire, SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 or
0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk

## Rhagair

Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn *Gwasanaethau Cyhoeddus Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu.* Mae hwn yn esbonio cynllun uchelgeisiol i greu dull integredig a newydd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Er mwyn cyflawni'r dull newydd yma, yn ystod tymor diweddaraf y Cynulliad bu i ni gyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Drwy weithredu Deddf 2016 rydym yn sefydlu system newydd o reoleiddio ac archwilio darparwyr gwasanaethau sy'n gwarchod hawliau dinasyddion Cymru i dderbyn gofal a chymorth urddasol, diogel a phriodol.

Bydd y system reoleiddio newydd yn fwy cydnerth ac yn galluogi Arolygiaeth Gofal Cymru, fel rheoleiddiwr y gwasanaeth, i gael trosolwg o'r gwasanaeth llawn y mae sefydliad yn ei ddarparu. Hefyd, bydd yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru gyda'r arolygiaeth ac i ddinasyddion gael mynediad at wybodaeth amdanynt.

Mae Deddf 2016 wedi arwain at reoleiddio ac archwilio gwasanaethau eirioli yng Nghymru am y tro cyntaf.  Am y tro, rwyf wedi penderfynu cyfyngu hynny i eiriolaeth a drefnir gan awdurdodau lleol o dan eu dyletswydd i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal a'r amrywiol fathau o ymadawyr gofal sydd yn dymuno rhoi sylwadau mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chymorth. Rwyf yn credu bod hwn yn gam cymesur ac yn gyfle i ddysgu o roi rheoliadau ar waith yn y rhan hon o'r sector tra fy mod yn ystyried ymestyn rheoleiddio i fathau eraill o eiriolaeth i'r rhai sydd angen gofal a chymorth.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a'r canllawiau statudol ategol, yn nodi ac egluro'r safonau gwasanaeth fydd yn ofynnol gan y darparwyr hyn o Ebrill 2019. Maent yn seiliedig ar, a phryd bynnag mae'n briodol, yn cyfateb i'r safonau hynny a osodwyd ar wasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref o fis Ebrill eleni.

Sicrhau cysondeb o ran y gofynion a osodir ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â'r holl wasanaethau a reoleiddir yw un o fy mhrif amcanion polisi wrth roi Deddf 2016 ar waith  Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod bod gan bob gwasanaeth ei nodweddion ei hun.  Felly, pan fo'n briodol, mae'r gofynion wedi'u teilwra er mwyn sicrhau eu bod yn cydweddu orau â sut mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu yn ymarferol, heb gyfaddawdu ar y safonau cyffredinol disgwyliedig.

Hoffwn ddiolch i chi am roi eich amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori hon, am ystyried y Rheoliadau drafft a'r canllawiau/cod, ac rwyf yn eich gwahodd i ymateb fel sy'n briodol. Edrychaf ymlaen at glywed eich safbwyntiau.

**Huw Irranca-Davies AC**
**Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol**

## 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[1] ('Deddf 2016'), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016, yn nodi'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac mae hefyd yn diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n disodli systemau perthnasol a sefydlwyd yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000[2].

**Mae Deddf 2016, am y tro cyntaf, yn darparu ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau eirioli.**

Mae Deddf 2016 yn cael ei rhoi ar waith yn sylweddol fesul tri chyfnod sy'n gorgyffwrdd:

- **Cyfnod 1 (2016/17)** oedd yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas â'r system newydd o reoleiddio gweithlu oedd yn ofynnol o dan y Ddeddf. Daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Yn ogystal â'r rhain, bu i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu rheolau a gweithdrefnau sy'n rheoli'r broses o gofrestru a rheoleiddio gweithlu.

- **Cyfnod 2 (2017/18)** pryd y sefydlwyd systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau rheoleiddiedig ac a weithredwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Ebrill 2018. Roedd y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â chartrefi gofal, llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daeth y rhain i rym ar 2 Ebrill 2018.

  Mae dolenni ar gael i holl reoliadau a chanllawiau cyfnod 1 a chyfnod 2 drwy Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru:
  https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhagc-rheoliadau

- **Cyfnod 3 (2018/19)** yw'r cyfnod presennol ac mae'n cynnwys datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu, asiantaethau maethu annibynnol, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli. Bwriedir i'r rhain ddod i rym yn Ebrill 2019.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys Rheoliadau drafft a chanllawiau statudol mewn perthynas â gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig.

Yn ystod cyfnod 3 byddwn hefyd yn datblygu'r gofynion fydd yn cael eu gosod ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar yr elfennau hyn, ac yn bwriadu i unrhyw reoliadau,

---

**1** http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_we.pdf
**2** http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

canllawiau statudol a chodau ymarfer ddod i rym yn ystod gwanwyn 2019. Ar hyn o bryd rydym hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar y dull o reoleiddio cynlluniau gwyliau i blant anabl, sydd ar hyn o bryd yn cael eu rheoleiddio fel gwasanaethau cartrefi gofal. Y bwriad yw diffinio'r gweithgaredd yma fel gwasanaeth newydd a reoleiddir o dan adran 2 Deddf 2016 a datblygu rheoliadau fydd yn gosod gofynion cymesur ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau o'r fath.

## 2. Yr ymgynghoriad hwn

**Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal o 24 Mai 2018 a daw i ben am hanner nos ar 16 Awst 2018.**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar Reoliadau Gwasanaethau Eirioli (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019 ('y Rheoliadau drafft') sydd yn gryno:

- Yn diffinio'r gwasanaethau eirioli sydd yn perthyn i gyfundrefn reoleiddio ac archwilio Deddf 2016;
- Yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig o dan Deddf 2016

Hefyd gofynnir am eich safbwyntiau ynghylch:

- Canllawiau statudol drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol o ran bodloni safonau gwasanaeth, o dan adran 29 Deddf 2016;
- Cynnwys darparwyr mathau eraill o eiriolaeth o bosibl - yn cynnwys ar gyfer oedolion - fel rhan o'r gyfundrefn reoleiddio ac archwilio pan fo tystiolaeth o'i effaith ar sefydlogrwydd y farchnad yn awgrymu bod y farchnad yn ddigon sefydlog i gynnal hynny.

Ar wahân i roi pŵer i Weinidogion Cymru nodi beth yw ystyr gwasanaeth eirioli rheoleiddiedig, mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaeth o'r fath fod yn wasanaeth a gynhelir at ddiben cynrychioli safbwyntiau unigolion, neu gynorthwyo unigolion i gynrychioli'r safbwyntiau hynny, mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag anghenion gofal a chymorth yr unigolion hynny: byddwn yn defnyddio'r meini prawf hynny ar gyfer ystyried cynnwys mathau ychwanegol o eiriolaeth.

Bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad yn helpu i hysbysu'r ystyriaeth a roddwn i'r Rheoliadau terfynol a'r canllawiau statudol. Ein bwriad yw dadansoddi'r ymatebion yn ystod yr hydref ac ystyried a fydd angen gwneud unrhyw newidiadau cyn cwblhau'r Rheoliadau erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym hefyd yn amcanu at gyhoeddi'r canllawiau statudol tua'r un adeg. Bydd y cyfan yn dod i rym yn Ebrill 2019.

## 3. Cefndir diwygio rheoleiddiol

### Yr achos o blaid diwygio rheoleiddiol

Mae llawer wedi ei gyflawni gan y rheoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru[3]), a'r sector gofal cymdeithasol ehangach, wrth fynd ati i wireddu'r uchelgeisiau a nodwyd Neddf Safonau Gofal 2000. Roedd y fframwaith hwn yn darparu gwaelodlin o safonau, ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ac i'r gweithlu sy'n eu darparu, ac mae'n ddiamheuol wedi gwella gwarchodaeth i'r cyhoedd. Hefyd, mae wedi darparu llawer mwy o gysondeb, gwarchodaeth rhag camdriniaeth a chamfanteisio, a mwy o sylw i arferion nad ydynt yn cyrraedd y safon. Gyda'n gilydd rydym wedi llwyddo i wella perfformiad ac yn parhau i ddefnyddio rheoleiddio ac archwilio i ddileu safonau gwael.

Fodd bynnag, ers hynny, rydym yn cydnabod bod llawer o bethau wedi newid yn y sector ac o gwmpas y sector, ac rydym wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio yn gyfredol a'r angen i gefnogi darparu gwasanaethau cynaliadwy.

Mae diwygio'r system reoleiddio, a ysgogir yn bennaf drwy Ddeddf 2016, yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:

- ymatebolrwydd i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [4] ('Deddf 2014')
- sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chymorth
- datblygu dull Cymreig cydlynol a chyson
- taclo methiannau darparwyr
- ymatebolrwydd i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon newydd am ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

### Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol- Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Bu i adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru[5], a gyhoeddwyd yn 2012, amlygu nifer o feysydd i fynd i'r afael â nhw er mwyn gwella darpariaeth eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg arweiniad strategol gan lywodraeth leol a chenedlaethol; diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hyrwyddo eiriolaeth i bobl ifanc; diffyg cysondeb wrth weithredu darpariaeth eirioli ar draws Cymru a diffyg craffu ar ansawdd y ddarpariaeth eirioli a'r arferion comisiynu.

Fel ymateb i hynny, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyhoeddi Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, er

---

3 Arolygiaeth Gofal Cymru (hyd at Ionawr 2019) oedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Gofal Cymdeithasol Cymru (hyd at Ebrill 2016) oedd Cyngor Gofal Cymru.
4 http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf
5 Lleisiau Coll: Adolygiad o'r eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Lleisiau-Coll_W.pdf

mwyn disodli Safonau Cenedlaethol Darparu Gwasanaethau Eirioli i Blant (2003)[6]. Er mwyn annog gwelliant o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan ddarparwyr eiriolaeth annibynnol, roedd angen fframwaith cytunedig a rennir ar gyfer darparwyr, ac i gomisiynwyr eiriolaeth ei ddefnyddio i sicrhau bod gwasanaethau eirioli o ansawdd uchel wedi eu sefydlu ar gyfer plant a phobl ifanc. Ymgynghorwyd ar y fframwaith yma yn ystod gwanwyn 2017[7].

Gan adeiladu ar hynny, sefydlwyd Grŵp Technegol, oedd yn cynnwys darparwyr eiriolaeth a rhanddeiliaid, ar ôl ymddeddfu Deddf 2014, er mwyn:

- cwblhau'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol
- adolygu (pan fo angen) Rhan 10 Cod Ymarfer Eiriolaeth[8] a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2015, o dan Deddf 2014
- cyfrannu at ddatblygu'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol sy'n ofynnol o dan Deddf 2016.

Daeth y gwaith hwn i ben yn gynnar yn 2018, ac roedd yn amcanu at sicrhau bod yna ddigon o alinio rhwng y safonau fydd yn cael eu gosod ar wasanaethau eirioli rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2016 a'r rhai o dan y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol. O ganlyniad i hynny, bydd yna fwy o eglurder ar gyfer awdurdodau lleol (fel comisiynwyr gwasanaethau) a darparwyr eiriolaeth. Pan ddaw'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol a luniwyd o dan Deddf 2016 i rym, bydd y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol yn darparu canllawiau arferion da anstatudol i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau eirioli.

### Diffinio'r gwasanaethau eirioli fydd i'w rheoleiddio

Fel ymateb i gwestiwn ynghylch y **gwasanaethau eirioli** fydd i'w rheoleiddio, yn ystod yr **ymgynghoriad ar gyfnod gweithredu un**, roedd adborth yn gyffredinol yn canolbwyntio ar yr effeithiau posibl ar drefniadau sydd wedi eu hen sefydlu, ar ddarparwyr presennol allai benderfynu peidio â chynnig gwasanaethau Eirioli Proffesiynol ac ar unrhyw gostau ychwanegol i ddarparwyr.

Mynegwyd yn glir na ddylid achosi unrhyw risg i ddarpariaeth rheng flaen o ganlyniad i ddefnyddio'r capasiti fyddai ar gael i ddelio â gofynion gweinyddol. Ystyriwyd bod hynny yn arbennig o bwysig i ddarparwyr unigol neu ddarparwyr graddfa fach, oherwydd gallai hynny gyfyngu ar eu gallu i ddelio ag atgyfeiriadau a rheoli eu llwyth achos.

Cydnabuwyd y bydd yr ymagwedd arfaethedig o gofrestru Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol yn unig yn helpu i gomisiynwyr ddylunio a rhoi contractau. Fodd bynnag, tybiwyd y byddai yna berygl o effeithio ar drefniadau sydd wedi eu hen sefydlu, ac y byddai darparwyr nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cynnig gwasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol, er eu bod yn parhau i gynnig gwasanaethau ataliol

6 http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/441/Advocacy%20Standards-e.pdf
7 https://beta.llyw.cymru/fframwaith-safonau-chanlyniadau-cenedlaethol-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc-yng-nghymru
8 Mae'r cod ymarfer hwn yn gysylltiedig ag awdurdodau lleol o ran ymarfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eirioli, o dan Deddf 2014 https://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part10cy.pdf

gwerthfawr, yn gadael y farchnad.

Gellir cael mynediad at yr ymgynghoriad ar gyfnod un, a'r adroddiad crynodol yma:

https://beta.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-gam-1-y-broses-o-roi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016-ar

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn chwarae rôl bwysig o ran diwygio gwasanaethau eirioli.

## 4. Rheoleiddio Gwasanaethau Eirioli

Mae eirioli, yn ei amrywiol ffurfiau, yn amcanu at sicrhau bod pobl, yn arbennig y rhai sydd yn fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, yn gallu:

- Mynegi eu safbwyntiau a'u pryderon.
- Cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau.
- Amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau a'u cyfrifoldebau.
- Archwilio dewisiadau ac opsiynau

**Cefndir deddfwriaethol**

Ar hyn o bryd nid yw gwasanaethau eirioli yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio.

O dan Ran 10 Deddf 2014 mae'n ddyletswydd ar **awdurdodau lleol** i wneud trefniadau ar gyfer darparu cefnogaeth i blant sy'n derbyn cymorth, plant oedd yn arfer derbyn cymorth, a phlant sydd ag anghenion gofal a chymorth. Mae'n rhaid i'r cymorth hwnnw gynnwys cymorth ar ffurf cynrychiolaeth. Mae hynny yn ei hanfod yn cael ei efelychu ac yn disodli'r ddyletswydd yn adran 26A Deddf Plant 1989.

Hefyd, mae Rhan 10 Cod Ymarfer Eiriolaeth, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014, yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol i:-

a) sicrhau bod mynediad at wasanaethau a chymorth eiriolaeth ar gael er mwyn galluogi unigolion i ymgysylltu â chyfranogi pan fo awdurdodau lleol yn ymarfer eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â nhw; a

b) threfnu eiriolwr proffesiynol annibynnol i hwyluso cyfranogiad unigolion o dan amgylchiadau penodol.

Mae'r cod yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol drefnu i ddarparu eiriolwr proffesiynol annibynnol pan na all unigolyn ond goresgyn rhwystrau i gyfranogi'n llawn mewn asesiad, cynllunio gofal a chymorth, adolygiad a phrosesau diogelu, gyda chymorth unigolyn priodol yn unig, ond nad oes unigolyn priodol ar gael.

At ddiben yr ymgynghoriad hwn, rydym yn disgrifio'r cymorth hwnnw fel eiriolaeth statudol i blant.

**Fframwaith statudol newydd**

O dan adran 27 Deddf 2016 , gall Gweinidogion Cymru osod gofynion ar **ddarparwr gwasanaeth** mewn perthynas â gwasanaeth a reoleiddir; ac o dan adran 28, gallent osod gofynion ar unigolyn cyfrifol mewn perthynas â gwasanaeth a reoleiddir.

Mae'r 'gwasanaethau rheoleiddiedig' yma yn cynnwys gwasanaethau eirioli, a ddiffinnir yn Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol ) (Cymru) 2019 ('y Rheoliadau drafft') fel:

(a) Gwasanaeth a gynhelir i ddarparu eiriolaeth ar gyfer plant sy'n cyflwyno neu'n bwriadu cyflwyno sylwadau o dan adran 174 Deddf 2014[9] (Cynrychioliadau mewn perthynas â phlant penodol etc.)

(b) Gwasanaeth a gynhelir i ddarparu eiriolaeth ar gyfer unigolion sy'n cyflwyno neu'n bwriadu cyflwyno sylwadau o dan adran 176 Deddf 2014[10] (Cynrychioliadau mewn perthynas â phlant oedd yn arfer derbyn gofal etc.)

pan mai diben y cymorth yw cynrychioli safbwyntiau'r plant neu'r personau neu eu helpu i fynegi eu safbwyntiau mewn perthynas â'u hanghenion am ofal a chymorth. Mae eiriolaeth yn golygu cymorth a roddir i helpu i unigolyn gynrychioli ei safbwyntiau.

*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

Er nad yw hynny'n gynwysedig yn yr ymgynghoriad hwn, rydym hefyd yn bwriadu llunio rheoliadau dan Adran 178[11] Deddf 2014 sy'n gymwys i drefniadau darparu cymorth i unigolyn sy'n gwneud sylwadau o dan a174 ac a176 Deddf 2014, yn cynnwys pan fo'r sylwadau hynny yn cael eu hystyried hefyd o dan a177.

Bydd rheoliadau a lunnir o dan y pwerau hyn yn gymwys i sylwadau a wneir gan blant a phobl ifanc am amrywiaeth o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sy'n effeithio ar blant. Bydd y Rheoliadau yn gwneud darpariaethau ynghylch y categorïau o unigolion nad ydynt yn cael darparu cymorth i'r unigolyn o dan drefniadau'r awdurdod lleol. Bydd hynny yn ei hanfod yn efelychu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Diwygiad) 2004, ac yn alinio â Rhan 10 y Cod Ymarfer.

Yr effaith fwriadus yw na fydd awdurdod lleol, o dan drefniadau a wneir ar gyfer darparu cymorth i'r bobl hynny sy'n gwneud sylwadau o dan a174 ac a176, yn gallu caniatáu i gymorth gael ei ddarparu gan unigolyn:

- Sydd neu allai fod yn destun y sylwadau
- Sydd yn rheoli unigolyn o'r fath

9 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/174
10 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/176
11 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/178

- Sydd yn rheoli’r gwasanaeth sydd neu allai fod yn destun y sylwadau
- Sydd yn rheoli'r adnoddau a ddynodwyd i wasanaeth o’r fath
- Sydd yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod

## 5. Y cynigion

### Trosolwg

Bwriad ein polisi yn gyffredinol yw gosod set o ofynion generig ar ddarparwyr yr holl ‘wasanaethau rheoleiddiedig’ o dan Ddeddf 2016, gan addasu’r rhain pan fo angen er mwyn gweddu i bob gwasanaeth.

Nodwyd y gofynion generig yma i ddechrau yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 [12] (‘Rheoliadau 2017’), a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2018 ac sy’n gymwys i wasanaethau cartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi plant ac oedolion), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Felly mae Rheoliadau 2017 yn darparu glasbrint polisi ar gyfer y Rheoliadau drafft yr ymgynghorir arnynt yma.

Ar gyfer gwasanaethau eirioli, bwriad ein polisi hefyd yw:

- Diffinio gwasanaethau eirioli at ddibenion Deddf 2016 sydd yn rhan o’r gyfundrefn reoleiddio ac archwilio mae’n ei sefydlu. Ar y cychwyn ein bwriad yw y bydd yn gyfyngedig i’r gwasanaethau hynny y mae’n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu’n statudol o dan Ddeddf 2014 ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, ymadawyr gofal a phlant sydd angen gofal a chymorth (eiriolaeth statudol i blant).

- Gosod y safonau y bydd gwasanaethau eirioli yn cael eu rheoleiddio a’u harchwilio yn eu herbyn o dan Ddeddf 2016. Bydd y rhain yn cael eu drafftio er mwyn bod yn gymwys i bobl sy’n derbyn gwahanol fathau o wasanaethau eirioli, fel ei bod yn eglur ei bod yn ddisgwyliedig y bydd y rheoleiddio yn cael ei ymestyn pan fo sefydlogrwydd y farchnad yn caniatáu hynny.

### Yr Ymagwedd

Mae’r ymagwedd a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu’r Rheoliadau drafft wedi ei dewis er mwyn sicrhau bod y gofynion yn:

- **Gymesur**: dylai’r gofynion fod yn berthnasol i faterion a reolir gan ddarparwr gwasanaeth a’r unigolyn cyfrifol, ac sy’n arwain at welliannau o ran ansawdd ac arferion.
- **Cyson**: â gwasanaethau eraill o dan Ddeddf 2016. Nid yw hynny’n golygu safonau ‘unffurf’ i bawb, ond dylai’r un safonau uchel gael eu cymhwyso ar draws yr holl wasanaethau. Felly, mae’r rheoliadau’n rhai lefel uchel o

---

**12** http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

anghenraid, ac mae'r manylion ynghylch sut mae cydymffurfio â'r gofynion wedi eu nodi yn y canllawiau statudol drafft.

- **Canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl:** y bwriad yw i'r gofynion alluogi i wasanaethau gefnogi pobl yn y ffordd orau bosibl i gyflawni *beth sy'n bwysig iddyn nhw,* yn unol ag ethos Deddf 2014.

**Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol ) (Cymru) 2019**

I grynhoi, mae'r Rheoliadau drafft:

- yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig (o dan adran 27 Deddf 2016);
- yn gosod gofynion ar unigolion cyfrifol dynodedig (o dan adran 28 Deddf 2016);
- yn nodi pa achosion o dorri'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol fydd yn cael eu trin fel troseddau (o dan adrannau 45 a 46 Deddf 2016)
- yn gosod gofynion ar berson penodedig mewn perthynas â darparwyr gwasanaeth sydd wedi eu diddymu (o dan adran 30 Deddf 2016);
- yn gosod gofynion ar gynrychiolydd personol darparwr gwasanaeth sydd wedi marw (pan mai unigolyn yw'r darparwr gwasanaeth) (o dan adran 31 Deddf 2016).
- yn pennu'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru (yn lle darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol.

**Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau**

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â safon yr eiriolaeth fydd yn cael ei darparu i unigolion. Mae hynny'n gysylltiedig â'r pŵer i lunio rheoliadau yn adran 27 Deddf 2016. "Darparwr gwasanaeth" yw unigolyn sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gwasanaeth a reoleiddir.

Mae **Rhan 1** y Rheoliadau drafft yn darparu diffiniad ar gyfer nifer o dermau cyffredin at ddibenion y Rheoliadau ac yn diffinio y mathau o wasanaethau eirioli fydd yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016.

Byddem yn benodol yn croesawu safbwyntiau ar gymhwysedd ac ymarferoldeb y rhannau a eithriwyd o reoleiddio o dan y rhan hon.

Mae **Rhan 2** yn nodi'r gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben, y trefniadau ar gyfer monitro a gwella, y cymorth sydd i'w ddarparu i'r unigolyn cyfrifol, y camau sydd i'w

cymryd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddynt gael eu sefydlu.

Mae'r datganiad o ddiben yn rhan ganolog o'r system o reoleiddio ac archwilio fydd yn cael ei sefydlu o dan Ddeddf 2016. Mwyach ni fydd yna amodau cofrestru caniataol mewn perthynas ag arbenigeddau penodol. Y datganiad o ddiben fydd y ddogfen ganolog fydd yn nodi natur y gwasanaeth y bydd darparwyr wedi eu cofrestru i'w darparu yn ogystal ag unrhyw arbenigeddau. Felly bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau hysbysu AGC ac eraill ymlaen llaw am eu bwriad i wneud newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth neu'r ffordd y mae'n cael ei ddarparu. Bydd AGC yn defnyddio'r wybodaeth honno er mwyn hysbysu ei benderfyniadau ynghylch y newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r gwasanaeth. Mae'r Rheoliadau drafft yn cynnwys gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau hysbysu'r rheoleiddiwr o leiaf 28 diwrnod cyn bod y newidiadau hynny yn cael e gwneud i'r datganiad o ddiben. Bydd y canllawiau statudol drafft yn ychwanegu eglurder ynghylch y math o newidiadau y byddai rheoleiddiwr y gwasanaeth (AGC) eisiau gwybod amdanynt.

Mae enghreifftiau o hynny yn cynnwys:

- Darparu gwasanaethau arbenigol ychwanegol; neu
- Pan fo gwasanaeth penodol y cyfeirir ato yn y datganiad o ddiben yn cael ei ddileu.

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich safbwyntiau ynghylch a yw'r gofyniad hwn yn rhesymol a chymesur neu beidio ar gyfer gwasanaethau eirioli.

Byddem hefyd yn croesawu safbwyntiau ar yr angen am bolisi cyfrinachedd ac unrhyw ystyriaethau arbennig allai fod yn gymwys yn achos gwasanaeth eirioli sydd yn neilltuol wahanol i wasanaethau rheoleiddiedig eraill.

Mae **Rheoliad 11 yn Rhan 3** yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wirio bod eu gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn cyn darparu eiriolaeth i unigolyn. Mae'n rhaid i'r broses yma o benderfynu ar addasrwydd gwasanaeth ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

Byddem yn benodol yn croesawu safbwyntiau ar unrhyw wahaniaethau allai fod yn gymwys rhwng eirioli a gwasanaethau rheoleiddiedig eraill mewn perthynas ag unrhyw gynllun gofal a chymorth allai fod wedi ei sefydlu, a rôl gwasanaethau eirioli o ran adnabod a bodloni anghenion.

Mae **Rhan 4** yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau lunio cynllun a'i adolygu ar gyfer y cyfnod y maent yn darparu gwasanaeth i unigolyn.

Mae **Rhan 5** yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr roi arweiniad ysgrifenedig i bob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i awdurdodau lleol sy'n comisiynu gwasanaethau. Y bwriad yma yw darparu eglurder ynglŷn â diwylliant ac ethos y gwasanaeth a reoleiddir ac amrywiaeth o faterion eraill. Mae'r rheoliadau yn nodi rhai o'r gofynion mewn perthynas â'r arweiniad; er enghraifft bod raid i'r iaith, arddull, cyflwyniad a fformat fod yn briodol gan roi ystyriaeth i'r unigolion y darperir eiriolaeth iddo. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r arweiniad gynnwys gwybodaeth

am sut i fynegi pryder neu wneud cwyn. Mae’r rheoliadau hefyd yn cynnwys gofyniad i unigolion dderbyn unrhyw gymorth sy’n angenrheidiol i’w galluogi i ddeall y wybodaeth a gynhwysir yn yr arweiniad.

Mae **Rhan 6** yn gysylltiedig â safon y gwasanaeth a ddarperir. Mae’n cynnwys gofynion trosfwaol fydd yn tanategu ansawdd y gwasanaeth. Mae hefyd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â materion megis darparu gwybodaeth, bodloni anghenion iaith a chyfathrebu’r unigolyn a sicrhau bod unigolion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd a cyfrinachedd.

Mae **Rhan 7** yn cynnwys gofynion y bwriedir iddynt sicrhau bod unigolion yn ddiogel a’u bod yn cael eu gwarchod rhag camdriniaeth a thriniaeth amhriodol.

Mae **Rhan 8** yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau ddefnyddio dim ond staff neu wirfoddolwyr sy’n addas i weithio, gwirfoddoli neu gyflawni dyletswyddau perthnasol, ac mae’n rhagnodi beth yw ystyr addasrwydd at y dibenion hyn. Mae’r gofynion penodol ynghylch gwybodaeth a dogfennaeth yn cael eu nodi yn Atodlen

Mae Rhan 8 hefyd yn nodi’r gofynion cofrestru fydd yn cael eu gosod ar reolwyr gwasanaethau eirioli.
Byddem yn croesawu sylwadau ar p’un a dybir bod y rhain yn gymesur neu beidio ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig, ac unrhyw faterion eraill fyddai angen eu hystyried.

Mae **Rhan 9** yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael safleoedd sydd yn addas i’r diben, er enghraifft, sicrhau bod gan y safle a ddefnyddir ar gyfer cynnal gwasanaeth ddigon o gyfleusterau ar gyfer goruchwylio staff a storio cofnodion yn ddiogel.

Mae **Rhan 10** yn cynnwys gofynion amrywiol ynghylch darparwyr gwasanaethau, yn cynnwys gofynion ynghylch cadw cofnodion a rhoi hysbysiadau i reoleiddiwr y gwasanaeth a chyrff eraill. Mae Atodlen 2 yn nodi’r cofnodion y mae’n ofynnol i'w cadw, ac mae Atodlen 3 yn nodi’r hysbysiadau penodol fydd yn cael eu rhoi. Mae’r rhan hon hefyd yn cynnwys gofynion ar y darparwr gwasanaeth i sefydlu polisi cwynion a pholisi chwythu'r chwiban.

Unigolion Cyfrifol

Mae **Rhannau 11 i 15** yn nodi’r gofynion sy’n gymwys i unigolion cyfrifol. Mae’r rhain yn cynnwys y ddyletswydd i benodi rheolwr ar gyfer y gwasanaeth, i oruchwylio’r gwaith o reoli’r gwasanaeth, i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoleiddiol, ac i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

Y bwriad yn y Rheoliadau drafft yma yw i’r unigolyn cyfrifol ysgwyddo’r cyfrifoldeb a’r atebolrwydd cyffredinol am gyflawni’r gofynion yma a gwahaniaethu rhwng tasgau ellir eu dirprwyo a’r rhai na ellir. Mae’r geiriau “rhoi trefniadau addas yn eu lle” wedi cael eu defnyddio er mwyn darparu’r eglurder angenrheidiol. Rydym wedi nodi’r amgylchiadau pan nad yw’r gofyniad i unigolyn cyfrifol benodi rheolwr yn gymwys. O dan yr amgylchiadau hynny byddai angen i’r unigolyn cyfrifol gael ei gofrestru fel

rheolwr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar yr ymagwedd hon.

Byddem hefyd yn croesawu safbwyntiau ar amlder ymweliadau a chyfarfodydd y mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol eu trefnu gydag unigolion ac aelodau staff.

**Rhan 16 - Troseddau**

Mae'r rheoliadau yn y rhan hon yn cael eu llunio o dan bwerau adrannau 45 a 46 Deddf 2016. Maent yn darparu bod methiant ar ran darparwr y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol yn ôl eu trefn, i gydymffurfio â'r gofynion penodol yn y Rheoliadau drafft yn drosedd. Mae yna gymhwyster ychwanegol sy'n gymwys mewn achos o fethu â chydymffurfio â gofynion penodol. Yn yr achosion hynny, mae'r rheoliad yn darparu bod hynny yn drosedd dim ond os bydd y methiant i gydymffurfio yn arwain at unigolyn yn dod i gysylltiad â niwed y gellid ei osgoi neu'n wynebu risg sylweddol o ddioddef niwed o'r fath neu'n colli arian neu eiddo o ganlyniad i ladrad, camddefnyddio neu gamberchnogi.

Er na fyddai methu â chydymffurfio â gofyniad penodol yn y Rheoliadau drafft yn drosedd efallai, mae'n werth nodi y gallai methiant ar ran darparwr gwasanaeth i gydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion a gynhwysir yn **Rhannau 2 i 10** y Rheoliadau fod yn sail ar gyfer canslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth o dan adran 15 Deddf 2016. Gallai methiant ar ran unigolyn cyfrifol i gydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion yn **Rhannau 11 i 15** y Rheoliadau fod yn sail i ganslo dynodiad yr unigolyn cyfrifol o dan adran 22.

<u>Hysbysiadau cosb</u>

Er bod y Rheoliadau drafft yn nodi pa achosion o dorri gofynion gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol fydd i'w trin fel troseddau, nid ydynt yn gwneud darpariaethau ar gyfer cymhwyso hysbysiadau cosb. Yn ystod cyfnod 2, bu i Reoliadau Gwasanaethau a Reolir (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017[13] sefydlu system hysbysiadau cosb, olygai y gallai Arolygiaeth Gofal Cymru roi cosb i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig yn hytrach na dwyn achos mewn perthynas â throseddau penodol.

Bwriad ein polisi yw ymestyn hynny i wasanaethau cyfnod 3, a galluogi i'r un system hysbysiadau cosb fod yn gymwys i droseddau cyfatebol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac unigolion cyfrifol. Mae hynny yn cael ei ddangos yn glir yn y tabl yn Atodiad A (dogfen ar wahân), a gofynnir am eich safbwyntiau ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn adran 6 y ddogfen hon.

Mae **Rhan 17** yn nodi gofynion penodol sy'n gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn ansolfent neu pan fo darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r rheoliadau yn gosod dyletswyddau hysbysu penodol ar y person a benodir (yn achos ansolfedd) neu ar y cynrychiolwyr personol (yn achos marwolaeth darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn).

---

**13** http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1292/pdfs/wsi_20171292_mi.pdf

Mae **Rhan 18** yn pennu'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru (yn lle'r darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol, er nad yw gofynion cymhwysedd adran 21(2) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r unigolyn. Mae'r rheoliad hwn wedi ei wneud o dan adran 21(5) y Ddeddf.

Yr ymagwedd o dan y Ddeddf yw mai cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth yw dynodi unigolyn cyfrifol. Os oes yna berson cymwys - sydd yn addas a phriodol hefyd - sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn Neddf 2016, disgwylir i'r darparwr gwasanaeth ddynodi'r person hwnnw fel yr unigolyn cyfrifol oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol. Mae'r amgylchiadau hynny wedi eu nodi yn y Rheoliadau drafft.

## 6. Effeithiau posibl

Er mwyn cynorthwyo'r broses o ystyried y Rheoliadau drafft rydym wedi cynnwys rhai o gostau a buddion dangosol y cynigion a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn. Pan ydym wedi gallu gwneud hynny, rydym hefyd wedi cynnwys rhai manylion am opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft.

**Diffiniad o wasanaethau eirioli at ddibenion Deddf 2016**

Rheoleiddio eiriolaeth statudol i blant: gwasanaethau statudol o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Sefydlwyd Grŵp Technegol o ddarparwyr eiriolaeth a rhanddeiliaid gyda'r bwriad o gynghori ar ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol o dan Ddeddf 2016. Cytunodd y Grŵp y dylid archwilio'r cyfle i wneud trefniadau pontio fel rhan o'r camau gweithredu. Cytunwyd bod darparwyr eiriolaeth statudol i blant, oherwydd eu partneriaeth hanesyddol o ddarparu gydag awdurdodau lleol, yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa gref er mwyn ymateb i'r gofynion cofrestru ac archwilio. Gellid ystyried amserlenni mwy hirdymor ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli eraill yn ddarostyngedig i sefydlu amserlen glir a disgwyliad bod darparwyr yn "gweithio tuag at gofrestriad llawn". Mynegwyd un pryder y dylai'r diffiniad o 'wasanaeth eirioli' gyfeirio at Ddeddf 2014 er mwyn cyfyngu ar y perygl o ddrysu rhwng y gwasanaeth ac eiriolaeth iechyd meddwl neu gapasiti meddyliol. Bu i'r Grŵp adlewyrchu pwysigrwydd sicrhau y dylai'r ymdrech i greu gwell mynediad at wasanaethau eirioli adlewyrchu disgwyliadau realistig a pheidio â thanseilio ac amharu ar sefydlogrwydd. Mae hefyd yn gyfle i weithio ar ddatblygu fframwaith penodol gyda SCW ar gyfer cymhwyso, cynefino a hyfforddiant.

Yn unol â hynny, mae'r ymagwedd a nodir yn y rheoliadau drafft yn canolbwyntio ar eiriolaeth statudol i blant, ond mae'n caniatáu ymestyn y fframwaith rheoleiddio i ddarparwyr eiriolaeth i oedolion a'r plant hynny nad ydynt yn gynwysedig yng nghwmpas adran 178 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ar yr adeg pan fo yna dystiolaeth gliriach o effaith rheoliadau ac archwiliadau o dan Ddeddf 2016 ar ddarparwyr.

**Costau**

Costau i Arolygiaeth Gofal Cymru
Bydd yna fân gostau i Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn ymestyn eu system TG i gynnwys darparwyr gwasanaethau eirioli fel y cynigwyd. Hefyd bydd yna gostau cynnal a chadw TG cylchol, ond disgwylir i'r rhain fod yn fychan hefyd.

Costau i Ymgeiswyr

Ar hyn o bryd mae dau ddarparwr gwasanaethau wedi eu comisiynu gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau rheoleiddiedig o dan yr ymagwedd hon. Dylai'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cofrestru fod ar gael yn rhwydd i'r ymgeisydd oherwydd eu bod yn rhan o gynllunio busnes safonol. Bydd angen cael gafael ar ychydig o wybodaeth ychwanegol, a bydd coladu a bwydo'r wybodaeth hon yn cymryd tua **diwrnod** i'r darparwr arferol. Bydd y ffurflen yn cael ei llenwi gan rywun mewn swydd cymharol uchel. Gan amcangyfrif eu bod yn ennill £15 yr awr, byddai hynny yn golygu cost o £120. Felly rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm cost cofrestru i ymgeiswyr fydd £240.

**Manteision**

Budd allweddol yr ymagwedd hon yw ei bod yn briodol, wedi ei thargedu ac yn gymesur, a bydd y wybodaeth a'r ddogfennaeth a ddarperir yn galluogi AGC i wneud penderfyniad cyflawn ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r ymgeisydd yn addas i reoli gwasanaeth. Mae hynny yn atgyfnerthu gallu AGC i sicrhau nad yw darparwyr gwael yn cael eu cofrestru, ac oherwydd hynny mae'n diogelu pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r ymagwedd hon wedi'i datblygu gyda'r Grŵp Technegol Eiriolaeth ac o ganlyniad i ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gyfnod 1 gweithredu Deddf 2016, a amlygodd bryderon ymysg rhanddeiliaid y byddai gofyn am yr ystod lawn o wasanaethau eirioli er mwyn cofrestru o dan gyfnod 3 yn achosi i rai beidio â mentro i'r farchnad ac y byddai'n arwain at gostau ychwanegol.

**Risgiau**

Prif risg yr ymagwedd hon yw y bydd amrywiaeth o wasanaethau sydd yn darparu'r hyn a ddisgrifir fel eiriolaeth (er enghraifft i'r rhan fwyaf o oedolion) yn parhau i beidio â chael eu rheoleiddio. Nid yw hon yn risg newydd ond yn barhad o'r sefyllfa sy'n bodoli. Fodd bynnag, mae'r safonau rheoleiddio fydd yn gymwys i ddarparwyr eiriolaeth statudol i blant yn cael eu drafftio gyda'r bwriad clir y byddant yn fwy eang eu cymhwysedd a bod y diffiniad yn cael ei newid pan fo'n eglur na fyddai ymestyn y gyfundrefn reoleiddio yn effeithio'n niweidiol ar sefydlogrwydd y farchnad.

**Crynodeb**

Mae hynny yn darparu ar gyfer ymagwedd fwy graddol sydd yn pennu safonau uchel ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli ac sy'n parchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfnod 1 gweithredu'r Ddeddf, a ddangosodd y byddai gweithredu fesul cam yn cyfyngu ar risg canlyniadau anhysbys. Mae'n cydnabod hanes hir y sector plant o ran darparu cymorth eiriolaeth i blant sy'n derbyn cymorth a phlant eraill penodol, a'u bod mewn sefyllfa dda i arwain drwy esiampl.

**Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau eirioli o dan Deddf 2016**

**Opsiynau**

Opsiwn un - Efelychu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017

O dan Ddeddf 2016, mae'r canlynol yn cael eu rhestru yn adran 2 fel gwasanaethau rheoledig:

- Gwasanaeth cartref gofal;
- Gwasanaeth llety diogel;
- Gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd;
- Gwasanaeth mabwysiadu;
- Gwasanaeth maethu;
- Gwasanaeth lleoli oedolion;
- Gwasanaeth eirioli;
- Gwasanaeth cymorth cartref.

Sut bynnag y'u diffinnir, mae gwasanaethau eirioli yn amlwg o natur wahanol i wasanaethau sy'n darparu llety neu gymorth cartref, felly bu'n rhaid ystyried pa ddarpariaethau ddylai fod yn gymwys ac na ddylai fod yn gymwys, a pha addasiadau allai fod yn briodol, fel y gall eiriolaeth fod yn wasanaeth rheoleiddiedig.

O dan yr opsiwn yma byddai darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 yn gymwys i wasanaethau eirioli rheoleiddiedig yn yr un modd ag y maent i wasanaethau eraill a reoleiddir heb fod angen eu haddasu.

Opsiwn dau - Addasu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2016

Gyda chymorth Grŵp Technegol Eiriolaeth, cynhaliwyd ymarferiad er mwyn clustnodi addasiadau a newidiadau priodol. Mae darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2016 sy'n gymwys i wasanaethau eirioli rheoleiddiedig yn cael eu rhestru isod ynghyd ag ychydig o sylwadau.

Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau - rydym yn cynnig y byddai'r rhan helaeth o hynny yn gymwys i wasanaethau eirioli rheoleiddiedig, ac yn argymell ychwanegu'r amod y dylai gwasanaeth eirioli rheoleiddiedig sefydlu polisi sy'n delio â materion cyfrinachedd. Mae hynny yn adlewyrchu'r amgylchiadau penodol pan allai gwybodaeth gael ei rhannu rhwng eiriolwr a defnyddiwr gwasanaeth a'r ffaith y bydd rhannu o'r fath yn aml yn rhagarddangos darpariaethau gwasanaethau eraill sy'n cynnig gofal a chymorth. Mae angen diogelu cyfrinachedd y defnyddiwr gwasanaeth a phroffesiynoldeb y darparwr; mae eglurhad clir o'r hyn yw ffiniau cyfrinachedd yn fuddiol i'r ddau.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth - dylai'r gofynion yn Rhan 4 Rheoliadau 2017 fod yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau eirioli, gan ddileu 'mynediad' yn 14(2). Nid yw'n fwriad gennym i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau eirioli gynnal eu hasesiad eu hunain o anghenion gofal a chymorth unigolyn. Fodd bynnag, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr eiriolaeth gynnal asesiad cychwynnol o'i allu i fodloni anghenion yr unigolyn mewn perthynas ag eiriolaeth.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth - mae darpariaethau mewn perthynas â chynlluniau personol ac adolygiadau o gynlluniau personol yn llai eang, ac mae hynny yn adlewyrchu'r gwahaniaeth yn yr ystyr nad yw gofal bob dydd yn cael ei ddarparu gan wasanaeth eirioli.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth - rydym yn dymuno efelychu Rhan 6 gydag addasiadau sy'n adlewyrchu cymhwyso'r ddarpariaeth hon i wasanaethau eirioli rheoleiddiedig.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon yr gofal a'r cymorth sydd i'w darparu - mae'r darpariaethau hyn yn cael eu hefelychu'n effeithiol ac mae addasiadau yn adlewyrchu eu cymhwyso i wasanaethau eirioli. Mae llai o ffocws yn cael ei roi ar ddilyniant gofal a mwy o ffocws ar gyfrinachedd o ganlyniad i'r ystyriaeth honno.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu - mae'r  darpariaethau hynny yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig ar wahân i'r darpariaethau hynny sy'n fwy addas i amgylchiadau pan fo llety yn cael ei ddarparu.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth mewn perthynas â safleoedd, cyfleusterau ac offer- nid ydym yn credu y bydd darpariaethau mewn perthynas â safleoedd, cyfleusterau ac offer yn gymwys i wasanaethau eirioli, a bydd y gofynion mewn perthynas â safleoedd ond yn gymwys mewn perthynas â'r gofyniad trosfwaol, goruchwylio staff a storio cofnodion yn ddiogel.

Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau - nid yw darpariaethau mewn perthynas â chofnodion a hysbysiadau sy'n gymwys i gartrefi gofal yn benodol yn gymwys yma. Nid yw hysbysiadau mewn perthynas â phlant a dderbynnir neu a ryddheir o le ble darperir llety i blant, yn ofynnol mewn perthynas ag eiriolaeth. Nid yw hysbysiadau mewn perthynas â marwolaeth plentyn sy'n cael llety mewn cartref plant yn gymwys. Mae'r darpariaethau mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau yn cael eu haddasu er mwyn dileu'r cyfeiriad at fuddiannau ariannol a chartrefi gofal. Mae'r darpariaethau mewn perthynas â pholisi a gweithdrefn cwyno a chwythu'r chwiban yn cael eu cadw.

Gofynion ar unigolion cyfrifol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol - mae hynny'n cael ei efelychu ac eithrio darpariaethau mewn perthynas â chartrefi gofal yn benodol. Rydym wedi efelychu, ac wedi addasu, darpariaethau mewn perthynas ag ymweliadau a chyfarfodydd gyda staff ac unigolion y darperir y

gwasanaeth iddynt, ond byddem yn croesawu mwy o sylwadau ar amlder rhagnodol ymweliadau a chyfarfodydd o'r fath.

Gofynion ar unigolion cyfrifol i fonitro a gwella ansawdd y gwasanaeth rheoleiddiedig - mae hynny wedi ei addasu er mwyn adlewyrchu cymhwysedd darpariaethau i wasanaethau eirioli.

Troseddau - ein bwriad yw i'r rheoliadau nodi bod methiant ar ran darparwyr gwasanaethau neu unigolion cyfrifol i fodloni gofynion penodol yn droseddau, fel yn Rhan 21 Rheoliadau 2017. Pan fo'r rhain yn cyfeirio at yr un gofynion neu ofynion cyffelyb o dan y rheoliadau hyn, rydym yn bwriadu creu troseddau cyffelyb.

Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu diddymu etc. neu sydd wedi marw - mae'r darpariaethau hynny wedi eu hefelychu ac wedi eu haddasu er mwyn adlewyrchu eu cymhwysedd i wasanaethau eirioli.

Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol; gofynion ar unigolion cyfrifol i sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaeth; a Rheoliadau o dan adran 21(5) y Ddeddf - mae'r holl ddarpariaethau yma wedi cael eu hefelychu ar gyfer eiriolaeth.

**Yr Opsiwn a Ffafrir**

Am y rhesymau a nodwyd o dan 'Buddion/Risgiau' isod, opsiwn dau yw'r opsiwn a ffafrir.

**Costau**

Opsiynau un a dau

Costau i AGC

Mae'r gost i AGC am ddarparu cyfundrefn reoleiddio ac archwilio o dan Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 yn cael ei drafod yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol oedd yn ategu'r Rheoliadau hynny (http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11277-em/sub-ld11277-em-e.pdf). Mae'n debygol mai bychan fydd y mân gostau sy'n gysylltiedig ag ymestyn y gyfundrefn hon i gynnwys gwasanaethau eirioli fel y'u diffinnir.

Costau i Ddarparwyr

Mae darpariaethau o dan Rannau canlynol Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017 yn gymwys i wasanaethau eirioli. O dan opsiwn un maent yn cael eu cymhwyso heb eu haddasu; mae addasiadau sy'n berthnasol i opsiwn dau yn cael eu nodi yn y testun pan fo hynny'n briodol.

Yn amlwg mae yna ryngweithio rhwng y diffiniad o wasanaeth eirioli at ddibenion y Rheoliadau hyn ac i ba raddau y mae darparwyr gwasanaethau yn bodloni, neu mewn sefyllfa i fodloni'r safonau a nodir yn y Rheoliadau, er nad yw'r sector yn

rheoleiddiedig ar hyn o bryd. Am y rheswm hwn, mae'r costau a nodir isod yn cael eu cyflwyno mewn fformat cost am bob darparwr.

*Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau*

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth - byddai darpariaethau fyddai'n gofyn am ddatganiad o ddiben a chynhyrchu cyfres o bolisïau a gweithdrefnau yn arwain at gost bychan i ddarparwyr gwasanaethau yn ddibynnol ar y darparwr a'r polisïau a'r gweithdrefnau y maent wedi eu llunio.

*Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol wedi cael eu nodi ar gyfer darparwyr gwasanaethau o dan yr opsiwn hon.

*Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth*

Byddai darpariaethau fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr baratoi arweiniad ysgrifenedig a chytundeb gwasanaeth fyddai'n rhaid eu rhannu â phob unigolyn yn arwain at gost i ddarparwyr gwasanaethau. Eto, bydd hynny yn amrywio yn ddibynnol ar y darparwr a'r ddogfennaeth fyddai ganddynt.

*Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu*

Byddai'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol gan ystyried anghenion yr unigolyn yn arwain at gost i ddarparwyr gwasanaethau. Bydd i ba raddau y bydd yna gostau yn dibynnu ar y darparwr a'r ddogfennaeth fydd ganddynt.

*Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu*

Byddai'r gofyniad i sefydlu polisïau a gweithdrefnau er mwyn atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, ac er mwyn ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth yn arwain at gost fechan i ddarparwyr gwasanaethau.  Bydd hynny yn dibynnu ar y darparwr a'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu ganddynt.

*Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio*

Byddai'r gofyniad i gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn arwain at gost o ran amser staff i ddarparwyr gwasanaeth. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r angen i gael polisi disgyblu ac un ar gyfer cefnogi a datblygu staff yn gynwysedig yn y paragraffau uchod. Bydd i ba raddau y bydd yna gostau yn dibynnu ar y darparwr a'r trefniadau sydd ganddynt.

*Gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth mewn perthynas â safleoedd, cyfleusterau ac offer*

Nid yw'r rhan helaeth o'r darpariaethau yn y Rhan hon yn gymwys i wasanaethau eirioli ac rydym wedi amcanu at eu dileu. Disgwylir y bydd yn debygol y bydd yr angen i ddarparwyr gael cyfleusterau digonol ar gyfer goruchwylio staff a storio cofnodion yn arwain at gost fechan i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaeth.

*Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau*

Bydd y gofyniad i gynnal cofnodion penodol a rhoi'r hysbysiadau gofynnol yn arwain at gost i ddarparwyr gwasanaeth. Bydd i ba raddau y bydd yna gostau yn dibynnu ar y darparwr a'r trefniadau sydd ganddynt.

*Gofynion ar unigolion cyfrifol*

Mae'r gofynion ar Unigolion Cyfrifol yn gysylltiedig â throsolwg o'r gwasanaeth, sicrhau bod y gwaith rheoli yn cael ei oruchwylio, llunio adroddiadau ar ansawdd y gwasanaeth, digonolrwydd adnoddau a materion eraill. Hefyd mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld yn bersonol â'r gwasanaeth a sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion eraill, megis rhoi hysbysiadau, cofnodi digwyddiadau a chwynion.

Efallai y bydd darparwyr yn ysgwyddo rhai costau ychwanegol. Gan ddefnyddio data ONS o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, sy'n nodi mai'r cyflog gros fesul awr i reolwyr a chyfarwyddwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd £18.86 yn 2016, amcangyfrifir y byddai hynny yn arwain at gyfanswm cost o £196 am bob ymweliad, a thybio bod Unigolion Cyfrifol yn treulio'r rhan fwyaf o'u diwrnod gwaith (8 awr) yn ymweld â'r gwasanaeth. Bydd hynny yn amrywio oherwydd bod gan rai Unigolion Cyfrifol fwy nag un gwasanaeth mewn gwahanol leoliadau.

**Buddion/Risgiau**

Opsiwn un

Buddion opsiwn un yw y byddai darparwyr gwasanaethau eirioli yn cael eu cofrestru gydag AGC ac yn cael eu rheoleiddio yn unol â safonau fyddai cyn belled â phosibl yn gymwys i holl ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig. Byddai hynny yn darparu eglurder a chysondeb yn y ffordd y mae gwasanaethau sy'n darparu cymorth a gofal yn cael eu rheoleiddio, ond y risg yw na fyddai hynny yn cydnabod cyd-destun penodol darparu gwasanaethau eirioli a'r heriau cysylltiedig.

Opsiwn dau

Buddion opsiwn dau yw y byddai darparwyr gwasanaethau eirioli yn cael eu cofrestru gydag AGC ac yn cael eu rheoleiddio yn unol â safonau fyddai cymaint â phosibl yn gymwys i holl ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, gydag *addasiadau perthnasol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau penodol gwasanaethau eirioli.* Byddai hynny yn darparu eglurder a chysondeb yn y ffordd y mae gwasanaethau sy'n darparu cymorth a gofal yn cael eu rheoleiddio, tra hefyd yn cydnabod cyd-destun penodol darparu gwasanaethau eirioli a'r heriau cysylltiedig.

## 7. Canllawiau Statudol

Mae'r canllawiau statudol drafft, a ddatblygwyd o dan adran 29 Deddf 2016, yn nodi sut all darparwyr gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion a osodwyd gan Rannau 2 i 15 y Rheoliadau drafft. Mae'n darparu mwy o ganllawiau - y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol eu hystyried - ynghylch sut mae bodloni elfennau unigol pob un o'r rheoliadau pan fo angen mwy o eglurhad a diffiniad. Ni ddylid ystyried bod y canllawiau yn gyflawn, oherwydd gallai fod yna ffyrdd eraill y gall darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Ni fwriedir iddynt fod ar wahân, felly mae'n rhaid eu darllen ar y cyd â Rhannau 2 i 15 y Rheoliadau drafft.

Fel yn achos y Rheoliadau drafft, mae'r canllawiau statudol drafft yn gyffredinol yn dilyn fformat a chynnwys y canllawiau statudol[14] a gyhoeddwyd yn Chwefror 2018, pan fo'n briodol, mewn perthynas â chartrefi gofal, llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref (a ddatblygwyd yn ystod cyfnod gweithredu 2).

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio'r canllawiau hyn er mwyn hysbysu penderfyniadau ynghylch i ba raddau y mae darparwyr cofrestredig yn bodloni gofynion y rheoliadau.

**14** https://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidancecy.pdf

# Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Sefydliad<br>(os yn gymwys): | |
| E-bost / rhif ffôn: | |
| Eich cyfeiriad: | |

**Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych bod eich ymateb yn aros yn ddienw, ticiwch y bocs os gwelwch yn dda:** ☐

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r eithriadau arfaethedig sydd wedi cael eu nodi yn Rhan 1 mewn perthynas â gwasanaethau eirioli rheoledig yn briodol?**<br>Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.<br>**Byddem yn benodol yn croesawu safbwyntiau ar gymhwysedd ac ymarferoldeb y rhannau a eithriwyd o reoleiddio o dan y rhan hon.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| | | | |

| **A yw'r diffiniad arfaethedig yn Rhan 1 mewn perthynas â gwasanaethau eirioli yn briodol?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| **RHAN 2: GOFYNION CYFFREDINOL AR DDARPARWYR GWASANAETHAU** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau eirioli yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 3: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN Y CAMAU SYDD I'W CYMRYD CYN CYTUNO I DDARPARU EIRIOLAETH** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. **Byddem yn benodol yn croesawu safbwyntiau ar unrhyw wahaniaethau allai fod yn gymwys rhwng eirioli a gwasanaethau rheoledig eraill mewn perthynas ag unrhyw gynllun gofal a chymorth allai fod wedi ei sefydlu, a rôl gwasanaethau eirioli o ran adnabod a bodloni anghenion.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau eirioli yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 4: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN Y CAMAU SYDD I'W CYMRYD WRTH GYCHWYN DARPARU EIRIOLAETH** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau eirioli yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 5: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN YR WYBODAETH SYDD I'W DARPARU I UNIGOLION WRTH GYCHWYN DARPARU EIRIOLAETH** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau eirioli yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**<br>Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |
| **RHAN 6: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN SAFON YR WASANAETH EIRIOLI SYDD I'W DARPARU** |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?**<br>Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.<br>**Byddem yn croesawu safbwyntiau ar yr angen am bolisi cyfrinachedd ac unrhyw ystyriaethau arbennig allai fod yn gymwys yn achos gwasanaeth eirioli sydd yn neilltuol wahanol i wasanaethau rheoledig eraill.** |

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| | | | |

| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**<br>Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
|---|
| |

| **RHAN 7: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU – DIOGELU** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod**.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**<br>Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 8: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN STAFFIO** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?**<br>Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.<br>**A ydych yn ystyried bod y gofynion i reolwyr gwasanaethau eirioli gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn gymesur a buddiol o ran sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n effeithiol? A oes yna unrhyw faterion ychwanegol fyddai angen eu hystyried?** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 9: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU O RAN SAFLEOEDD** | | | |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |
| **RHAN 10: GOFYNION ERAILL AR DDARPARWYR GWASANAETHAU** |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eirioli?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?**<br>Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |
| **RHANNAU 11 - 15: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL** |
| **A yw'r gofynion yn y rhan hon yn briodol ar gyfer gwasanaethau eirioli?**<br>Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.<br>**Rydym wedi nodi'r amgylchiadau pan nad yw'r gofyniad i unigolyn cyfrifol benodi rheolwr yn gymwys. O dan yr amgylchiadau hynny byddai angen i'r** Unigolyn Cyfrifol **gael ei gofrestru fel rheolwr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddem yn croesawu safbwyntiau ar hyn ac ar amlder ymweliadau a chyfarfodydd y mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol eu trefnu gydag unigolion ac aelodau staff**. |

| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
|---|---|---|---|
| | | | |

| |
|---|
| **A yw'r canllawiau statudol yn cefnogi darparwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon?** Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod. |
| |
| **RHAN 16: TROSEDDAU** |
| **A yw'r ymagwedd a gymerir mewn perthynas â throseddau yn ddigonol a chymesur? Os nad, eglurwch hynny isod.** |

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| | | | |

| Hysbysiadau Cosb (Ni ddarperir ar gyfer y rhain yn y Rheoliadau drafft) | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r ymagwedd mewn perthynas â hysbysiadau cosb, fel y dangosir hynny yn Atodiad A, yn ddigonol a chymesur? A yw’r lefelau cosb yn briodol?** Os nad, eglurwch hynny isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| RHAN 17: Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu diddymu etc. neu sydd wedi marw | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw’r gofynion a osodwyd ar unigolion a benodwyd a chynrychiolwyr personol yn rhesymol?** Os nad, eglurwch hynny isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |

| **RHAN 18: RHEOLIADAU O DAN ADRAN 21(5) - DYNODI UNIGOLION CYFRIFOL GAN WEINIDOGION CYMRU** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r amgylchiadau pan allai unigolion cyfrifol gael eu dynodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth, yn ddigonol a chymesur?** Os nad, eglurwch hynny isod. | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| | | | |
| **Cwestiynau eraill:** | | | |
| Rydym wedi nodi nifer o gostau/buddion/risgiau mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft yma.<br><br>**A yw'r costau/buddion/risgiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn adlewyrchiad rhesymol o lefel effaith y Rheoliadau drafft? A oes yna unrhyw gostau/buddion/ risgiau ychwanegol yr ydych yn teimlo na ystyriwyd neu na nodwyd?** | | | |
| Eglurwch: | | | |

| |
|---|
| Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig neu beidio. Nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.<br><br>**A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?** |
| Eglurwch: |
| **A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?** Os ydych, pa rai a pham/pam ddim? |
| Eglurwch: |

| |
|---|
| Hoffwn wybod beth yw eich safbwyntiau ar effeithiau’r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â<br><br>i) chyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a<br>ii) pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.<br><br>**Pa effeithiau ydych chi’n meddwl allai fodoli? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?** |
| Eglurwch: |
| **Hefyd eglurwch sut ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:**<br><br>i) creu effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, a<br><br>ii) sicrhau na effeithir yn niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. |
| |

| **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion eraill i'w nodi nad ydym wedi delio â hwy yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i wneud hynny.** |
| --- |
| |